



Ein cyf/Our ref MA-P/KW/2762/18

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd a Phrif Weithredwr
Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

15 Tachwedd 2018

Annwyl Huw a Sue

Llythyr Cylch Gwaith Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol 2018-2021

Rwyf yn falch fod yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (AGAA) bellach ar waith i ymdrin ag un o'r ymrwymadau allweddol yn 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl', gan arwain, meithrin ac ysbrydoli arweinwyr nawr ac ar gyfer y dyfodol ar draws y system gyfan mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Rwy'n gwybod fod hyn yn cyd-fynd ag egwyddor ganolog AGAA o sicrhau tegwch mynediad at ddarpariaeth o'r ansawdd gorau.

Mae'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y llythyr hwn ar gyfer y cyfnod 2018-2021, rwyf yn disgwyl i'r rhain aros yn gymharol debyg ond mae'n bosibl y bydd yr amcanion sy'n sail iddynt yn datblygu ac yn newid dros amser. Er mwyn cefnogi'r amcanion hynny gallaf gadarnhau mai cyfanswm y gyllideb AGAA sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yw £785,000. Yn dilyn trafodaethau manwl, penderfynwyd mai £370,000 fyddai'r refeniw fyddai ei angen i gefnogi'r AGAA am weddill y flwyddyn ariannol hon. Caiff y cyllid hwn ei dalu fel cymorth grant, a hynny ymlaen llaw yn ôl yr angen a brofir. Fel rydych yn ymwybodol y gyllideb ddangosol ar gyfer AGAA ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 yw £1 miliwn, gall hyn newid ond gellir ei ddefnyddio at ddibenion cynllunio.

Gan y bydd yr AGAA hefyd yn gyfrifol am barhau â Rhaglen Cymdeithion yr Academi, bydd cyfanswm o £240,000 ar gael ar gyfer y cyfnod Ionawr - Ebrill 2019 i alluogi'r AGAA i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Mae swm dangosol o £400,000 yn yr arfaeth ar gyfer y rhaglen yn ystod 2019-20 ond caiff ei gadarnhau pan gaiff y cyllidebau terfynol eu pennu. Caiff manylion pellach ynglŷn â'r sefyllfa gyllido eu hegluro mewn Llythyr Cynnig Grant, ynghyd â thelerau ac amodau'r cyllid.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwch yn gweld bod yr amcanion strategol hefyd yn adlewyrchu sefyllfa'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol fel un o elfennau hanfodol yr haen ganol. Bydd angen i'r AGAA weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i sicrhau ffocws strategol ar ddatblygu arweinyddiaeth er mwyn cefnogi ein hagenda ddiwygio.

Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda chi i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, a chyfrannu at lwyddiant yr AGAA.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

Blaenoriaethau Strategol 2018-2021

1. Datblygu'r AGAA fel sefydliad strategol gyda diwylliant cadarnhaol a chynhwysol a llywodraethiant cryf

Amcanion penodol ar gyfer 2018-19:

Sefydlu'r AGAA fel sefydliad sydd:

- Yn meddu ar drefniadau llywodraethiant cryf gan gynnwys Bwrdd cwbl weithredol, a swyddogaeth gweithrediaeth ag adnoddau digonol i gyflawni ei chylch gwaith;
- Yn gallu cyflawni ei ofynion cyfreithiol ac ariannol fel cwmni gan gynnwys sicrhau bod yr holl bolisiâu rheoli angenrheidiol ar waith;
- Yn cyflawni'r gofynion a nodir o fewn y cytundeb rheoli, gan gynnwys datblygu'r cynlluniau gweithredol a chorfforaethol cyntaf;
- Wedi diffinio ei rôl yn yr haen ganol yn eglur, ac wedi dechrau ymgymryd â'r rôl honno, drwy sefydlu cydberthnasau cynhyrchiol gyda sefydliadau partner allweddol;
- Wedi sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid gweithredol sy'n cyfranogi erbyn diwedd mis Mawrth 2019; a
- Yn meddu ar bresenoldeb ymatebol ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

2. Cyfrannu at ddatblygiad galluoedd proffesiynol arweinwyr presennol a darpar arweinwyr ar draws y system addysg drwy ddarparu eglurder a sicrwydd ansawdd ar gyfer yr amrywiaeth o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru

Amcanion penodol ar gyfer 2018-19:

- Bod ar y trywydd cywir i gyflawni amcan Cenhadaeth ein Cenedl - "Portffolio sylweddol o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth wedi'u hardystio i fod ar gael ar gyfer y gymuned addysg erbyn Hydref 2019." Bydd hyn yn cynnwys datblygu amserlen ar gyfer ardystio;
- Datblygu'r broses ardystio bresennol ymhellach, gan gynnwys gweithio'n agos â gwledydd datganoledig eraill a Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau ei bod yn broses drylwyr a theg yn unol â'r egwyddorion yn y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (a gaiff ei gyhoeddi yn ystod hydref 2018);

Amcanion ar gyfer 2018-19 a'r blynyddoedd i ddod:

- Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys sefydliadau a darparwyr haen ganol eraill, i wella mynediad at ddarpariaeth gan sicrhau bod cyfleoedd dysgu addas ar gael yn gyfartal ledled Cymru, yn Gymraeg a Saesneg, gan wireddu

nod yr Academi o fynd i'r afael â thegwch a mynediad at ddarpariaeth o'r ansawdd gorau;

- Parhau i ddatblygu Rhaglen Cymdeithion yr Academi fel sail ar gyfer datblygu arweinyddiaeth system yn y dyfodol;
- Cyfrannu at ddiwygio a phennu ffocws newydd i raglen y CPCP gan gynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried y ffordd orau o drefnu contractau ar gyfer darparu'r rhaglen arweinyddiaeth allweddol hon wrth symud ymlaen; a
- Thrwy weithio'n agos â phartneriaid a Llywodraeth Cymru, dechrau nodi bylchau mewn darpariaeth a gwneud argymhellion ar y ffordd orau o lenwi'r bylchau hynny er mwyn sicrhau bod galluedd arwain yn cael eu datblygu ar draws pob agwedd o'r system gan gynnwys yn yr haen ganol, Addysg Bellach ac yn Llywodraeth Cymru ar gyfer arweinwyr cyfredol ynghyd ag arweinwyr y dyfodol.

3. Gweithredu fel arweinydd meddwl; datblygu, egluro a gweithredu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru;

Ni ddisgwylir i'r amcanion hyn gael eu cyflawni'n gyflym, er eu bod yn dechrau yn ystod y cyfnod 2018-19, a'r bwriad yw eu hymestyn i gwmpasu cyfnod y llythyr cylch gwaith :

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a rhannu ymchwil ac arfer gorau sydd wedi'u meincnodi yn rhyngwladol mewn arweinyddiaeth addysgol gan gynnwys adlewyrchu blaenoriaethau presennol o fewn y comisiwn ymchwil ar gyfer Cymdeithion yr Academi;
- Gwella'r weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysgol gan gynnwys creu cydlynid a chysylltiadau ag Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu a'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol;
- Cyfleu a llywio polisi, strategaeth a datblygiad arweinyddiaeth, gan gynnwys:
 - Mynd i'r afael â datblygu arweinyddiaeth yn seiliedig ar yr agenda Cymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau bod arweinwyr ym mhob ysgol yn meddu ar y sgiliau i gynllunio datblygiad sgiliau iaith Gymraeg pob dysgwr ac ymarferwr mewn modd strategol, ac i hybu datblygiad ethos a diwylliant Cymraeg yn yr ysgol.
 - Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Rhanddeiliaid i lunio canllawiau ar ddefnyddio safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth;
 - Cyfrannu at faterion yn ymwneud â chynllunio gweithlu arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth ar gyfer y sector addysg; ac yn benodol i sicrhau cyflenwad digonol o arweinwyr Cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dyfodol;
 - Ystyried goblygiadau arweinyddiaeth, blaenoriaethau ac anghenion datblygu ar gyfer lleoliadau penodol megis ysgolion bach a gwledig, Unedau Cyfeirio Disgyblion, Ysgolion Arbennig, ffederasiynau, ysgolion Cyfrwng Cymraeg a modelau ar gyfer sefydliadau newydd megis ysgolion canol;

- Unwaith y byddant wedi eu cymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet, cyflwyno unrhyw argymhellion y cytunwyd arnynt a nodwyd yn 'Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr' a neilltuwyd i'r AGAA neu sy'n gofyn am gyfraniad gan yr AGGA
- Nodi dulliau arweinyddiaeth, gan ystyried anghenion penodol y sector Cyfrwng Cymraeg, er mwyn helpu i symud yn esmwyth i'r cwricwlwm newydd a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.

A thrwy gydol y gwaith hwn sicrhau y gellir clywed llais y sector o fewn y drafodaeth ddiwygio.